Tuag at Ragoriaeth

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**11 TACHWEDD 2020**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Adnoddau Dysgu Cyfunol**

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am ein strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i sicrhau parhad y dysgu.

## 2.0 Cefndir

2.1 Er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw darfu pellach allai ddigwydd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, hoffem weld ysgolion yn cydweithio â'i gilydd, ac â ninnau, i baratoi ar gyfer y llu o sefyllfaoedd posibl allai godi. Ein blaenoriaeth bennaf fydd gweithio gyda ysgolion i sicrhau parhad y dysgu.

2.2 Sefydlwyd safle Canolfan Cefnogaeth GwE ble mae'r adnoddau a grëwyd i ymateb i'r cyfnod clo ar gael. Yn y cyfnod nesaf hwn, rydym yn awyddus i gydweithio ag ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu'r dull gweithredu hwn ymhellach, a chynyddu'r gronfa adnoddau sydd ar gael i ysgolion dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys rhannu adnoddau sydd eisoes ar gael a pharatoi adnoddau ychwanegol lle mae bylchau wedi'u hadnabod. Gobeithio y bydd hyn yn ysgafnu'r llwyth gwaith i ysgolion, ac yn rhoi modd iddynt gynllunio ar gyfer unrhyw beth allai ddigwydd.

2.3 Bydd ein dull gweithredu, ynghyd â'r adnoddau ategol, yn cryfhau ymhellach eich ymdrechion i:

- ddatblygu gwell cysondeb ac ansawdd yn y cynnig 'cyffredinol' sydd ar gael i'r ystod oedran
- dargedu grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol yn y tymor byr
- ddatblygu yn effeithiol sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- ddarparu modelau dysgu cyfunol effeithiol

- gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Rydym am i'r ysgolion cynradd gydweithio a chefnogi'r naill a'r llall o fewn eu clystyrau naturiol. Gyda'r ansicrwydd ynghylch sut y dyfernir cymwysterau CA4 a CA5, rhoddir cyfleoedd i ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac UCD ffurfio cynghreiriau i roi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth a ffyrdd eraill y gellid darparu er mwyn ymateb i unrhyw gyfnod clo arall. Gallai'r cynghreiriau hyn fod ar ffurf triawdau, neu ar unrhyw ffurf arall a fyddai orau i amddiffyn parhad y dysgu. Y nod yw cael clystyrau a chynghreiriau i adnabod lefel y cymorth a fyddai'n briodol, ac a fyddai'n ofynnol, yn y gwahanol sefyllfaoedd.

3.2 Caiff pob clwstwr / cynghrair gyllid i hwyluso eu gofynion yn lleol. Disgwylir hefyd i bob clwstwr neu gynghrair rannu cynlluniau ac adnoddau a ddatblygir â chlystyrau a chynghreiriau eraill. Fel hyn, bydd gennym gronfa adnoddau sylweddol i bob grŵp oedran ar draws y gyfundrefn ysgolion yng Ngogledd Cymru.

3.3 Bydd llyfrgell o adnoddau dysgu cyfunol ar gael, wedi'u creu gan athrawon, ar gyfer athrawon. Mae clystyrau a chynghreiriau wrthi'n casglu, cyd-lunio a rhannu adnoddau gyda'i gilydd ac ar draws y rhanbarth.

3.4 Bydd yr adnodd hwn ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE ac yn cynnwys adnoddau o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 5. Yn ogystal, mae tudalen wybodaeth i Llywodraethwyr wedi ei sefydlu hefyd.

3.5 Bydd yr adnodd hwn yn fodd i ysgolion barhau â'u harferion cydweithio cadarn drwy rannu'r adnoddau y byddent wedi'u datblygu. Bydd yn fodd i gefnogi cydweithwyr ar draws Gogledd Cymru yn ystod yr amser heriol hwn, a thu hwnt.

3.6 Yn ogystal, er mwyn hyrwyddo gweithredu'r Cynnig Proffesiynol, bydd cyllid penodol i ddatblygu'r gwaith o ran y Gymraeg, Trawsnewid ADY, Cwricwlwm a PMG yn parhau drwy'r clystyrau dalgylchoedd.

3.7 Er mwyn diwallu'r gofynion adrodd i Lywodraeth Cymru, bydd disgwyl i bob clwstwr / cynghrair gyflwyno cynllun penodol. Bydd YCG GwE ar gael i hwyluso a chefnogi'r

gwaith yma gan obeithio y bydd hyn yn ysgafnu'r llwyth gwaith, ac yn rhoi modd i ysgolion gynllunio ar gyfer unrhyw beth allai ddigwydd.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi'r dull a'r model rhanbarthol i sicrhau parhad y dysgu yng Ngogledd Cymru.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

**5.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o’r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i’w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.